



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Daniel - Council Business Unit, Democratic Services (01443 424103)

Bydd rhithwir cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 7FED IONAWR, 2021** am **3.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 5 IONAWR 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cymeradwyo a chadarnhau bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd, 2020 yn rhai cywir.

5 - 8

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU

5. CAIS RHIF: 20/0468

Estyniad yn y cefn i greu fflat hunangynhwysol 1 ystafell wely ar gyfer rheolwr. (Derbyniwyd Disgrifiad, Cynlluniau a ffurflen gais ddiwygiedig ar 19/11/20),

Fflat uwchben gwesty The Ferndale, Stryd y Dyffryn, Glynrhedynog

9 - 16

6. CAIS RHIF: 20/0646

Dwy annedd 4 ystafell wely rhanedig gyda garejys a manau parcio a rennir. Darparu llwybr troed. (Amlinelliad) (Effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus ANT/340/1) (Diwygiwyd y disgrifiad. Derbyniwyd cynlluniau a gwybodaeth ddiwygiedig ar 5 Hydref, 6 Tachwedd a 9 Tachwedd 2020)

Tir yn Otters Brook, Parc Ivor, Brynsadler, Pont-y-clun

17 - 32

7. CAIS RHIF: 20/1213

Cadw a chwblhau bloc garej (ailgyflwyno cais 20/0091/10)

Tir cyferbyn â Stryd James, Cwmdâr, Aberdâr

33 - 42

8. CAIS RHIF: 20/1265

Trosi'r adeilad masnachol presennol yn 7 fflat ac uned fasnachol lai sy'n wynebu'r stryd (Dosbarth Defnydd A2)
Lloyds TSB, 80 Stryd y Fasnach Aberpennar

43 - 54

**ARGYMHELLION I'W GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION
FFYNIANT A DATBLYGU**

9. CAIS RHIF: 20/0959

6 o fflatiau 1 ystafell wely (newidiwyd y disgrifiad a derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 4 Tachwedd 2020)
Hen Glwb y Lleng Brydeinig, Stryd Howell, Cilfynydd, Pontypridd

55 - 66

ARCHWILIAD O'R SAFLE

10. CAIS RHIF: 20/0680/10

Gweld lluniau drôn, awyrluniau a lluniau 'dash cam' mewn perthynas â chais am 6 pod glampio gydag isadeiledd, gwelliannau ac atgyweiriadau i'r ysgubor bresennol (derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar 17/08/2020) (derbyniwyd cynllun diwygiedig ar 25/08/2020)
**FFERM BLAEN NANT-Y-GROES, HEOL BLAEN NANT-Y-GROES,
CWM-BACH, ABERDÂR, CF44 0EA**

67 - 78

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

**11. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU
GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, am y cyfnod 07/12/2020 – 18/12/2020

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.

79 - 96

12. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd R Yeo, Y Cynghorydd D Williams ac Y Cynghorydd S Powderhill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Uwch Beiriannydd